# Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent

# Hysbysiad Preifatrwydd Recriwtio

## Pwy ydym ni

Mae Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent (Swyddfa'r Comisiynydd) yn rhoi cymorth i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (y Comisiynydd) gyflawni ei ddyletswyddau a chyfrifoldebau sy'n cynnwys dwyn Prif Gwnstabl Gwent i gyfrif am gyflawni plismona lleol, pennu a diweddaru cynllun heddlu a throseddu, pennu'r gyllideb a'r praesept ac ymgysylltu â'r cyhoedd a chymunedau yng Ngwent.

Prif Weithredwr Swyddfa'r Comisiynydd yw'r rheolwr data ar gyfer y wybodaeth bersonol rydym yn ei phrosesu, oni bai y nodir yn wahanol.

Gallwch gysylltu â ni mewn sawl ffordd

Trwy e-bost: Commissioner@gwent.pnn.police.uk

Ar y ffôn: 01633 642200

Trwy'r post: Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent
Pencadlys yr Heddlu
Heol Tyrpeg
Croesyceiliog
Cwmbrân
NP44 2XJ

Y Swyddog Diogelu Data yw Joanne Regan. Gellir defnyddio'r manylion uchod i gysylltu â hi. Cyfeiriwch bob gohebiaeth at sylw'r Swyddog Diogelu Data

## Pwrpas yr hysbysiad preifatrwydd hwn

Pwrpas yr hysbysiad preifatrwydd hwn yw eich hysbysu sut bydd Swyddfa'r Comisiynydd yn prosesu eich gwybodaeth bersonol a'ch hawliau mewn perthynas â hynny.

Mae'r hysbysiad hwn yn cynnwys gwybodaeth a brosesir at ddibenion recriwtio. Nid yw'n cynnwys recriwtio aelodau o'r Cydbwyllgor Archwilio, Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd, Gwirfoddolwyr Lles Anifeiliaid, Cadeiryddion wedi Cymhwyso yn y Gyfraith nac aelodau o'r Panel Camymddwyn. Mae hysbysiad preifatrwydd ar wahân wedi cael ei lunio mewn perthynas â'r broses recriwtio honno.

Rydym yn prosesu data personol yn ymwneud ag ymgeiswyr am swyddi fel rhan o unrhyw broses recriwtio. Rydym wedi ymroi i fod yn dryloyw ynghylch sut rydym yn casglu a defnyddio'r data hynny ac i fodloni ein rhwymedigaethau diogelu data.

Mae'n bwysig nodi, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, bod Heddlu Gwent yn ymgymryd â'r broses recriwtio ar ran Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent. Fel y

cyfryw, bydd eich data personol yn cael eu rhannu rhwng y ddau sefydliad. Bydd eich data personol yn cael eu prosesu ar ran Swyddfa'r Comisiynydd yn yr un ffordd â data cyflogai Heddlu Gwent; felly bydd y wybodaeth sy'n gynwysedig yn Hysbysiad Preifatrwydd Recriwtio Heddlu Gwent yn berthnasol hefyd. Am wybodaeth bellach am Heddlu Gwent a'u Swyddog Diogelu Data, ewch i'w gwefan.

**Proses recriwtio Prif Gwnstabl**

Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu sy'n gyfrifol am recriwtio'r Prif Gwnstabl. Mae'r wybodaeth yn yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn berthnasol i'r broses hon hefyd. Ni fydd unrhyw wybodaeth yn cael ei rhannu gydag unrhyw aelod o Heddlu Gwent yn ystod y broses recriwtio oni bai ei bod yn ofynnol ein bod yn gwneud hynny. Pan fydd y Panel Heddlu a Throseddu wedi cymeradwyo penodiad yr ymgeisydd llwyddiannus, bydd manylion personol yn cael eu rhoi i'r adran Adnoddau Dynol er mwyn ychwanegu manylion yr ymgeisydd llwyddiannus at y systemau gofynnol, megis y gyflogres a TG.

**Pa wybodaeth ydym ni'n ei chasglu?**

Rydym yn casglu amrywiaeth o wybodaeth amdanoch chi. Gall gynnwys:

- eich enw, cyfeiriad a manylion cyswllt, gan gynnwys cyfeiriad e-bost a rhif ffôn;
- manylion eich cymwysterau, sgiliau, profiad a hanes cyflogaeth;
- a oes gennych chi anabledd y mae angen i ni wneud addasiadau rhesymol ar ei gyfer yn ystod y broses recriwtio;
- gwybodaeth am eich hawl i weithio yn y DU;
- gwybodaeth monitro cyfle cyfartal, gan gynnwys gwybodaeth am eich tarddiad ethnig, cyfeiriadedd rhywiol, iechyd a chrefydd neu gred;
- gwybodaeth cofnod troseddol a
- buddiannau busnes allanol yn unol â'n *Polisi Buddiannau Busnes.*

Rydym yn casglu'r wybodaeth hon mewn amryw o ffyrdd. Er enghraifft, mae'n bosibl casglu data o ffurflenni cais, eich pasbort neu ddogfennau hunaniaeth eraill, neu drwy gyfweliadau neu ffyrdd eraill o asesu, gan gynnwys profion ar-lein.

Byddwn yn casglu data personol amdanoch chi gan drydydd partïon hefyd, megis geirdaon gan gyflogwyr blaenorol, gwybodaeth gan bobl sy'n darparu gwiriadau cefndir at ddibenion cyflogaeth a gwybodaeth o wiriadau fetio a chofnodion troseddol. (Ni fyddwn yn gofyn am wybodaeth gan drydydd parti nes y byddwch wedi llwyddo yn y broses gyfweld a byddwn yn eich hysbysu ein bod yn gwneud hynny).

**Beth yw'r sail gyfreithiol dros brosesu eich data personol?**

Mae angen i ni brosesu data personol cyn ymrwymo i gontract gyda chi. Mae angen i ni brosesu eich data pan fyddwn yn ymrwymo i gontract gyda chi hefyd.

Mewn rhai achosion, mae angen i ni brosesu data er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol. Er enghraifft, mae'n ofynnol ein bod yn gwirio a yw ymgeisydd llwyddiannus yn gymwys i weithio yn y DU cyn dechrau'r swydd.

Mae gennym fudd cyfreithiol wrth brosesu data personol yn ystod y broses recriwtio a chadw cofnodion o'r broses. Mae prosesu data gan ymgeiswyr am swyddi'n ein galluogi i reoli'r broses recriwtio ac asesu a chadarnhau pa mor addas yw ymgeisydd ar gyfer cyflogaeth a phenderfynu pwy y dylid cynnig swydd iddo. Efallai y bydd angen i ni brosesu data gan ymgeiswyr am swyddi er mwyn ymateb i hawliadau cyfreithiol ac amddiffyn yn eu herbyn hefyd.

Lle rydym yn dibynnu ar fuddiannau cyfreithlon fel rheswm dros brosesu data, rydym wedi ystyried a yw hawliau a rhyddid cyflogeion neu weithwyr yn bwysicach na'r buddiannau hynny ac rydym wedi casglu nad ydynt.

Rydym yn prosesu gwybodaeth am iechyd os oes angen i ni wneud addasiadau rhesymol i'r broses recriwtio ar gyfer ymgeiswyr sydd ag anabledd. Mae hyn er mwyn bodloni ein dyletswyddau cyfreithiol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac i arfer hawliau penodol mewn perthynas â chyflogaeth. Rydym yn prosesu gwybodaeth i wirio bod ymgeisydd yn addas i ymgymryd â swyddogaethau hanfodol y swydd yr ymgeisiwyd amdani hefyd.

Rydym yn prosesu categorïau penodol eraill o ddata hefyd, megis gwybodaeth am darddiad ethnig, cyfeiriadedd rhywiol, iechyd neu grefydd neu gred, at ddibenion monitro cyfle cyfartal.

Fel rhan o'r broses ymgeisio bydd gofyn i chi fynd trwy broses fetio sy'n gymesur â'r swydd rydych yn ymgeisio amdani. Byddwn yn eich fetio yn unol ag Arfer Proffesiynol Cymeradwy ar gyfer Fetio'r Coleg Plismona ac, yn dibynnu ar lefel y fetio gofynnol ar gyfer eich swydd, gallwn ofyn i chi ddarparu eich manylion personol yn ogystal â manylion eich partner, unrhyw blant dros 10 oed, eich rhieni, brodyr a chwiorydd a chyd-breswylwyr

Gallwn gynnal gwiriadau hefyd am unrhyw euogfarnau troseddol blaenorol neu gudd-wybodaeth leol, chwiliad o Gronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu, gwiriadau ffynhonnell agored a gwiriadau gan asiantaethau gwirio credyd.

Dim ond at ddibenion yr ymarfer recriwtio ar gyfer y swydd rydych wedi ymgeisio amdani y byddwn yn defnyddio eich data.

**Rhannu eich data personol**

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu'n fewnol ar gyfer yr ymarfer recriwtio. Mae hyn yn cynnwys aelodau o'r tîm Adnoddau Dynol a Recriwtio, staff a rheolwyr sy'n ymwneud â'r broses recriwtio, yr adran Safonau Proffesiynol a, ble y bo'n berthnasol, staff yr adran Iechyd Galwedigaethol.

Ni fyddwn yn rhannu eich data gyda thrydydd parti oni bai bod eich cais am gyflogaeth yn llwyddiannus a'n bod yn cynnig swydd i chi. Wedyn byddwn yn rhannu eich data gyda chyn-gyflogwyr i gael geirdaon ar eich cyfer. Os yw eich swydd yn gofyn am fetio ehangach gan y llywodraeth gallwn roi eich cyfeiriad e-bost a gwybodaeth bersonol arall megis eich enw, dyddiad geni a rhif pasbort i United Kingdom Security Vetting (UKSV) a fydd yn cysylltu â chi i gwblhau'r cais fetio priodol. UKSV fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw wybodaeth ychwanegol rydych yn ei darparu ar ei gyfer.

Bydd eich data personol yn cael eu rhannu gyda'r Gwasanaeth Adnoddau ar y Cyd - sefydliad allanol sy'n darparu ein gwasanaethau TG, a gyda Chronfa Bensiwn Gwent Fwyaf, sy'n cael ei chynnal gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol i'ch cofrestru chi ar gynllun pensiwn yn y gweithle, er y cewch gyfle i dynnu yn ôl o'r gwasanaeth hwn.

Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth ag unrhyw drydydd parti at ddibenion marchnata uniongyrchol.

**Am ba hyd ydym ni'n cadw eich data personol?**

Mae data personol yn cael eu cadw yn unol â'n *polisi cadw*.

Os yw eich cais am gyflogaeth yn aflwyddiannus, byddwn yn cadw eich data ar ffeil am un flwyddyn ar ôl diwedd y broses recriwtio berthnasol. Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw (neu unwaith i chi dynnu eich caniatâd yn ôl), caiff eich data eu dileu a/neu eu dinistrio.

Bydd cofnodion fetio'n cael eu cadw yn unol â chanllawiau Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu ar y safonau gofynnol ar gyfer cadw a gwaredu cofnodion heddlu. Dyma'r categorïau perthnasol:

- Ymgeiswyr llwyddiannus - hyd at chwe blynedd ar ôl gadael neu un flwyddyn ar ôl marwolaeth.
- Gwrthodiadau fetio - chwe blynedd

Os yw eich cais am gyflogaeth yn llwyddiannus, caiff data personol a gasglwyd yn ystod y broses recriwtio eu trosglwyddo i'ch ffeil personél a'u cadw yn ystod eich cyflogaeth. Mae manylion pa mor hir y bydd eich data'n cael eu cadw yn ein hamserlen cadw.

**Sut ydym ni'n cadw eich gwybodaeth yn ddiogel?**

Rydym yn cymryd diogelwch eich data o ddifrif ac mae gennym bolisïau a rheolaethau mewnol ar waith i sicrhau nad yw eich data'n cael eu colli, eu dinistrio'n ddamweiniol, eu camddefnyddio na'u datgelu, ac nad oes gan unrhyw un fynediad atynt ac eithrio ein gweithwyr er mwyn cyflawni eu dyletswyddau'n iawn.

**Eich hawliau mewn perthynas â'ch data personol**

O dan gyfraith diogelu data, mae gennych chi hawliau y mae angen i ni eich gwneud yn ymwybodol ohonynt. Mae'r hawliau sydd ar gael i chi'n dibynnu ar ein rheswm dros brosesu eich gwybodaeth.

- Eich hawl i fynediad
- Eich hawl i gywiriad
- Eich hawl i ddileu
- Eich hawl i rwystro prosesu.
- Eich hawl i wrthwynebu prosesu
- Eich hawl i gludadwyedd data

Ceir gwybodaeth bellach am yr hawliau hyn yn ein *hysbysiad preifatrwydd cyffredinol*.

Os hoffech arfer unrhyw rai o'r hawliau hyn, cysylltwch â'r Tîm Recriwtio Canolog - CentralRecruitment@gwent.pnn.police.uk

**Beth os nad ydych yn darparu data personol?**

Nid ydych o dan unrhyw rwymedigaeth statudol na chytundebol i ddarparu data i ni yn ystod y broses recriwtio. Fodd bynnag, os nad ydych yn darparu'r wybodaeth, mae'n bosibl na fyddwn yn gallu prosesu eich cais.

Nid ydych o dan unrhyw rwymedigaeth i ddarparu gwybodaeth at ddibenion monitro cyfle cyfartal ac ni fydd dewis peidio â darparu gwybodaeth o'r fath yn effeithio ar eich cais.

**Newidiadau i'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn**

Rydym yn adolygu ein hysbysiad preifatrwydd yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn gyfredol a chywir.

**Os ydych yn anfodlon**

Rydym yn pennu safonau uchel iawn ar gyfer casglu a defnyddio data personol yn briodol ac rydym yn ystyried unrhyw gŵynion yn ddifrifol iawn. Hoffem i chi dynnu ein sylw at unrhyw ddigwyddiad lle rydych yn credu bod y defnydd o ddata'n annheg, yn gamarweiniol neu'n amhriodol. Rydym yn croesawu unrhyw awgrymiadau ar gyfer gweithredu'n well hefyd. Cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data yn Swyddfa'r Comisiynydd i ddechrau.

Os ydych yn dal yn anfodlon ar ôl cysylltu â'n Swyddog Diogelu Data, gallwch wneud cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru
2il Lawr, Tŷ Churchill
Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH

Ffôn: 01625 545297

Ffacs: 029 2067 8399
E-bost: wales@ico.org.uk

**Diweddarwyd 10 Ionawr 2019**